



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

Hysbysiad gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru: gofynion preswyllo arferol

Diwygiadau i'r gofynion preswyllo arferol ar gyfer personau sydd â chaniatâd a ddiogelir i ddod i mewn neu i aros yn y DU.

Cyhoeddwyd gyntaf: 27 Ionawr 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 27 Ionawr 2021

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd cyfres o fesurau i wella cymhwysedd ar gyfer cyllid myfyrwyr a statws ffioedd cartref ymhlith y rheini sydd mewn categorïau ymfudo sy'n seiliedig ar ddiogelu.

Fel arfer, i fod yn gymwys ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a statws ffioedd cartref, mae'n rhaid i unigolyn breswyllo fel arfer yn y DU a'r Ynysoedd am dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf y cwrs. Mae'r gofyniad hwn yn un hirdymor ac yn sicrhau bod adnoddau cyhoeddus prin yn cael eu targedu at y rheini sy'n fwyaf tebygol o gyfrannu at gymdeithas a'r economi.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-gofynion-preswyllo-arferol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yr eithriad mwyaf amlwg i hyn yw ffoaduriaid, nad oes yn rhaid iddynt fodloni'r maen prawf hwn. Mae hyn yn cydnabod eu sefyllfa unigryw o ran bod angen eu diogelu ac yn sicrhau eu bod yn gallu dechrau adeiladu bywyd yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi penderfynu y dylai'r rheini sydd mewn nifer o gategorïau tebyg sy'n seiliedig ar ddiogelu hefyd fod yn gymwys heb fod angen iddynt fodloni'r maen prawf preswyllo tair blynedd. Bydd hyn yn berthnasol i:

- bersonau y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddynt
- personau sydd â chaniatâd i aros fel personau diwladwriaeth
- personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016
- phersonau y rhoddwyd caniatâd Calais i aros iddynt.

Yn ogystal, gan gydnabod yr amgylchiadau personol anodd a'r posibilrwydd na fyddant yn gallu dangos cyfnod preswyllo o dair blynedd am resymau y tu hwnt i'w rheolaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn dileu'r meini prawf hyn i'r rheini sydd wedi cael caniatâd i aros o ganlyniad i brofedigaeth neu drais domestig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyflwyno'r newidiadau hyn mor gyflym â phosibl.

Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021

Mae Rheoliadau Addysg (Ffioedd Myfyrwyr, Dyfarndaliadau a Chymorth) (Preswylfa Arferol) (Cymru) 2021 ('y Rheoliadau') yn diwygio'r rheoliadau a restrir isod:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-gofynion-preswyllo-arferol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsgau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Diben y Rheoliadau yw dileu'r gofyniad preswyllo tair blynedd yn y rheoliadau uchod ar gyfer categorïau penodol o fyfyrrwyr:

- personau y rhoddwyd diogelwch dyngarol iddynt
- personau sydd â chaniatâd i aros fel personau diwladwriaeth
- personau sydd â chaniatâd i aros o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016.

Mae'r gofyniad wedi'i dileu hefyd ar gyfer aelodau penodol a pherthnasol o'u teulu. Disgwylir i'r Rheoliadau ddod i rym ar 28 Ionawr 2021.

Cymhwysedd y rheini sydd â chaniatâd Calais i aros a'r rheini sydd wedi cael caniatâd o ganlyniad i drais domestig neu brofedigaeth

Caiff diwygiadau pellach eu gwneud i gymorth myfyrrwyr a rheoliadau cysylltiedig er mwyn ehangu cymhwysedd ymhlith grwpiau agored i niwed. Bydd Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod personau sydd wedi cael caniatâd Calais i aros yn gymwys ar gyfer cymorth myfyrrwyr a statws ffioedd cartref. Ni fydd y gofyniad preswyllo tair blynedd yn berthnasol iddynt.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrrwyr-cymru-gofynion-preswyllo-arferol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yn ogystal, ni fydd angen i bersonau sydd wedi cael caniatâd i aros fel dioddefwr trais domestig a phersonau sydd wedi cael caniatâd i aros oherwydd profedigaeth, sydd eisoes yn gymwys o dan y rheoliadau, fodloni'r gofyniad preswyllo tair blynedd mwyach. Mae hyn yn cydnabod y ffaith ei bod yn bosibl na all y rheini sydd yn y sefyllfa hon ddangos tystiolaeth o gyfnod preswyllo tair blynedd oherwydd amgylchiadau y tu allan i'w rheolaeth.

Mae hyn yn ddarostyngedig i'r rheoliadau a wneir. Disgwylir i'r rheoliadau gael eu gwneud ddechrau'r gwanwyn 2021 a byddant yn berthnasol i flwyddyn academaidd 2021 i 2022.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-gofynion-preswyllo-arferol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Hysbysiad gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru: gofynion preswyllo arferol](#) a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-gofynion-preswyllo-arferol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/hysbysiad-gwybodaeth-cyllid-myfyrwyr-cymru-gofynion-preswyllo-arferol-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).